


Cyngor Sir Gâr

Protocol y Wasg a'r Cyfryngau

2015



Cyflwyniad:

Mae'r wasg a'r cyfryngau yn sianeli cyfathrebu hanfodol i'r Cyngor. Mae rhanddeiliaid [trigolion, staff, Cyngorau Tref a Chymuned a sefydliadau partner] yn eu defnyddio yn ffynhonnell gynradd o wybodaeth ynglŷn â'r Cyngor a'i wasanaethau. Mae'r cyfryngau cymdeithasol hefyd yn ffordd gynyddol boblogaidd i drigolion gael gwybodaeth am y Cyngor a'i wasanaethau, ac i gysylltu â'r Cyngor.

Lluniwyd y ddogfen hon i roi gwybodaeth i Aelodau a Swyddogion am y protocol sylfaenol i weithio gyda'r cyfryngau ynghyd ag arweiniad clir i'w rolau a'u cyfrifoldebau.

Bydd protocol effeithiol mewn perthynas â'r wasg a'r cyfryngau yn helpu'r Cyngor i roi gwybodaeth, hyrwyddo ei wasanaethau a datblygu ei ddelwedd fel sefydliad agored a thryloyw sy'n atebol i'r gymuned leol. Bydd y Cyngor yn parhau i hybu diwylliant o ddiwylliedd a hygyrchedd tuag at y cyfryngau.

Mae'r protocol hwn yn esbonio'r egwyddorion y mae'r Cyngor yn eu mabwysiadu, ac yn rhoi ystyriaeth i'r Cod Ymarfer a Argymhellir ar Gyhoeddusrwydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru (y Cod). Mae gofyn i Awdurdodau Lleol 'ystyried darpariaethau' y Cod hwn yn y modd y maent yn cyfathrebu.

Mae'r Cod yn cydnabod natur wleidyddol llywodraeth leol, ac yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith y bydd rhywfaint o gyhoeddusrwydd awdurdod lleol yn ymwneud â materion sy'n ddadleuol oherwydd amgylchiadau lleol penodol, neu yn sgil gwahaniaeth barn rhwng pleidiau gwleidyddol yn lleol a chenedlaethol. Ond nid yw'r egwyddorion yn gwahardd cyhoeddi gwybodaeth am faterion sy'n wleidyddol sensitif neu ddadleuol, nac yn tagu dadl gyhoeddus. Mae'n gosod camau diogelu ac yn sicrhau y caiff arian cyhoeddus ar gyfer cyhoeddusrwydd ei ddefnyddio'n briodol.

Egwyddorion ac Amcanion:

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gyfathrebu'n effeithiol fel bod trigolion y sir yn gwybod am wasanaethau, penderfyniadau a datblygiadau'r cyngor. Mae Swyddfa'r Wasg yn gyfrifol am gynnal llif llawn a chyson o wybodaeth i'r cyfryngau, a phob amser yn gweithredu yn unol â'r Cod. Y nodau yw:

- Bod yn agored, yn ddiwyll ac yn gywir wrth ymdrin â'r cyfryngau ac ymateb i ymholiadau yn unol â therfynau amser gohebwy'r lle bynnag y bo modd, a rhoi esboniad pan na fydd hynny'n bosibl.
- Cynnal a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod a'r swyddogaethau y mae'n ymgymryd â nhw.
- Symud ymlaen a pharhau â chyhoeddusrwydd ar faterion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd; a darparu gwybodaeth i'r cyhoedd.
- Rhoi i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan benderfyniadau, polisiâu a blaenoriaethau'r Cyngor y wybodaeth i'w deall a sut i gyfranogi drwy ymgynghori ac ymgysylltu lle y bo'n berthnasol.

- Sicrhau y caiff y Gymraeg ei chydabod wrth ymdrin â cheisiadau'r cyfryngau.
- Hyrwyddo a thynnu sylw at lwyddiannau a chyflawniadau'r Cyngor a'i bartneriaid.
- Sicrhau ymateb wedi'i gydlynu o un pwynt cyswllt, sef Swyddfa'r Wasg.
- Darparu ymatebion prydlon a chywir i'r cyfryngau.
- Sicrhau nad yw datganiadau a deunyddiau eraill a gyhoeddir ar ran y Cyngor (gan gynnwys ar wefan y Cyngor) yn wleidyddol bleidiol.

Rolau a chyfrifoldebau:

1. Swyddfa'r Wasg:

Polisi'r Cyngor yw ymdrin â phob ymholiad a mater yn ymwneud â'r cyfryngau yn ganolog drwy Swyddfa'r Wasg er mwyn sicrhau y caiff neges gyson ei chyfleu i'r cyhoedd. Dylai pob swyddog y mae'r cyfryngau yn cysylltu ag ef/hi eu cyfeirio at Swyddfa'r Wasg.

Gall cynghorwyr ymdrin â'r cyfryngau yn uniongyrchol os ydynt yn dymuno. Ond os oes arnynt angen cymorth a chyngor, mae hynny ar gael iddynt drwy Swyddfa'r Wasg. Mae ffeithiau a ffigurau ar gael iddynt drwy'r Uned Gwasanaethau Democrataidd.

Caiff pob datganiad i'r wasg ei gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr neu'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol cyn ei ryddhau. Caiff pob dyfyniad a datganiad ei briodoli i Gynghorydd neu Swyddog a enwir. Bydd datganiadau i'r wasg yn cynnwys dyfyniadau gan yr aelod priodol o'r Bwrdd Gweithredol a/neu'r Prif Swyddog priodol lle y bo'n briodol.

Bydd yr egwyddor o benderfyniadau ac atebolrwydd gweithredol yn cael ei hadlewyrchu yn nhrefniadau cyfryngau'r Cyngor. Caiff penderfyniadau'r Cyngor Llawn a'r Bwrdd Gweithredol, a gwaith y pwyllgorau eraill, eu cyhoeddi pe gofynnir am hynny gan Gadeirydd y pwyllgor perthnasol.

2. Y Cyngor:

Pan fydd gan benderfyniadau yn y Cyngor gefnogaeth drawsbleidiol ac yn cael eu cyhoeddi, bydd y Datganiad i'r Wasg yn cynnwys dyfyniadau gan y tri Arweinydd Grŵp.

Pan fydd gan benderfyniadau yn y Cyngor gefnogaeth y mwyafrif, caiff prif wrthwynebiad neu ddadl y blaid sy'n anghytuno ei gynnwys er mwyn dangos y ddadl ddemocrataidd.

3. Arweinydd y Cyngor a'r Bwrdd Gweithredol:

Bydd yr Arweinydd ac Aelodau'r Bwrdd Gweithredol yn gwneud datganiadau i'r cyfryngau neu'n cael eu dyfynnu mewn perthynas â'u portffolios. Yn absenoldeb yr Aelod perthnasol o'r Bwrdd Gweithredol, caiff yr Arweinydd neu'r Dirprwy Arweinydd ei ddyfynnu/dyfynnu. Bydd yr Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd neu Aelod perthnasol o'r Bwrdd Gweithredol yn rhoi cyfweiliadau am benderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol.

Os yw Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn penderfynu ymateb yn gyhoeddus i lythyr, darn nodwedd neu sylw a wnaed yn y cyfryngau, gall wneud hynny fel Aelod o'r Bwrdd Gweithredol. Ond os yw'r ymateb yn 'wleidyddol bleidiol', rhaid iddo gael ei wneud yn uniongyrchol ganddo ef/ganddi hi ac nid drwy Swyddfa'r Wasg.

4. Cadeirydd y Cyngor:

Caiff Cadeirydd y Cyngor ei gefnogi/chefnogi gan Swyddog y Wasg i hyrwyddo ei rôl arbennig fel llysgennad i'r Cyngor. Caiff rhaglen a ffotograffau rheolaidd eu trefni i'r wasg at y diben hwn.

5. Cadeiryddion Pwyllgorau:

Caiff Cadeiryddion Pwyllgor, neu'r Is-Gadeiryddion yn eu habsenoldeb, eu dyfynnu mewn datganiadau i'r wasg yn ymwneud â gwaith, argymhellion neu benderfyniadau eu pwyllgorau. Mae hyn yn cynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen.

Bydd y Cadeiryddion, neu'r Is-Gadeiryddion, yn trafod gyda Swyddog y Wasg i weithredu rhaglen gyhoeddusrwydd reolaidd i helpu i gyfarwyddo'r cyhoedd a hyrwyddo gwaith eu pwyllgorau.

6. Cynghorwyr Ward:

Caiff cynghorwyr ward eu hysbysu am unrhyw ddatganiadau i'r wasg neu gyfleodd i dynnu lluniau yn ymwneud yn uniongyrchol â'u maes hwy a chânt y cyfle i gymryd rhan. Os ydynt wedi bod yn ymwneud â'r pwnc dan sylw, cânt eu dyfynnu mewn datganiadau i'r wasg a'u gwahodd i gyfleoedd i dynnu lluniau.

Ni fydd Swyddfa'r Wasg yn paratoi datganiadau i'r wasg ar ran cynghorwyr ward. Ond os bydd angen gwybodaeth neu gyngor ar gynghorydd ward, bydd Swyddog y Wasg yn hapus i helpu.

7. Swyddogion:

Caiff uwch swyddogion priodol eu dyfynnu mewn datganiadau i'r wasg. Er na fyddai uwch swyddogion fel arfer yn rhoi sylwadau i'r cyfryngau ar benderfyniadau'r Cyngor, gallant roi cyfweliadau neu sylwadau ar faterion gweithredol/technegol.

Gallai swyddogion eraill roi cyfweliadau ar achlysuron pan fo angen gwybodaeth arbenigol neu dechnegol, cyhyd â'u bod yn gyfforddus i wneud hynny a'u bod wedi cael cymeradwyaeth y Prif Swyddogion perthnasol.

Datganiadau i'r Wasg:

Bydd pob datganiad i'r wasg yn cael ei rhyddhau drwy Swyddfa'r Wasg. Caiff sylw golygyddol ei gynhyrchu naill ai drwy gyhoeddi Datganiad i'r Wasg neu wrth i'r wasg/cyfryngau gysylltu â'r Cyngor ynglŷn â stori.

Bydd pob datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi yn yr adran Newyddion ar wefan y Cyngor, a chaiff rhai eu hyrwyddo drwy sianeli'r cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Facebook a Twitter.

Bydd pob datganiad i'r wasg o natur ffeithiol, ac ni fydd yn cynnwys unrhyw beth y gellid ystyried ei fod wedi'i ysgogi'n wleidyddol nac yn unochrog. Ni chânt eu defnyddio i hyrwyddo pleidiau gwleidyddol.

Pan ystyrir hynny'n briodol, rhoddir cyhoeddusrwydd i benderfyniadau a wneir gan y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol ac yng ngwaith pwyllgorau'r Cyngor.

Bydd pob datganiad i'r wasg yn cynnwys dyfyniadau gan yr Aelod priodol o'r Bwrdd Gweithredol. Bydd dyfyniadau gan yr aelod(au) lleol bob amser yn cael eu cynnwys os ydynt wedi bod yn ymwneud â'r pwnc dan sylw.

Ymholiadau'r cyfryngau:

Swyddfa'r Wasg fydd yn ymwneud â phob ymholiad gan y cyfryngau. Caiff pob datganiad ei briodoli i'r Aelod priodol o'r Bwrdd Gweithredol, neu swyddog. Ni chaiff y term 'llefarydd' ei ddefnyddio.

Nid yw 'Dim sylw' yn ymateb derbyniol, oni bai bod hynny'n gwbl anochel. Gwell yw rhoi sylw am y tro os nad yw gwybodaeth ar gael mewn pryd i derfyn amser y cyfryngau.

Dylai swyddogion roi blaenoriaeth i ymholiadau'r wasg er mwyn cyrraedd y terfynau amser gofynnol.

Bydd Swyddfa'r Wasg yn sicrhau y caiff anghenion y cyfryngau Cymraeg eu diwallu wrth ymdrin â cheisiadau'r cyfryngau.

Caiff ymholiadau o natur wleidyddol eu cyfeirio at yr unigolyn/unigolion dan sylw ac ni fydd Swyddog y Wasg yn ymdrin â nhw. Ni fydd Swyddfa'r Wasg yn rhyddhau unrhyw ddatganiad nac ymateb o natur wleidyddol.

Y Cyfryngau Cymdeithasol:

Caiff y Cyfryngau Cymdeithasol eu defnyddio am yr un rhesymau â'r cyfryngau traddodiadol a bydd yr un egwyddorion a phrotocolau'n berthnasol.

Mae nifer o gyfrifon gan y Cyngor ar Facebook a Twitter, ac mae ganddo gyfrif Flickr hefyd ar gyfer ffotograffau. Dylai pob cyfrif fod yn gwbl ddwyieithog.

Mae'r defnydd a wneir o'r Cyfryngau Cymdeithasol yng Nghyngor Sir Caerfyrddin yn ddull cynyddol bwysig o gyfathrebu â chwsmeriaid, boed yn drigolion, yn dwristiaid neu'n fusnesau, ac mae'n arfer sydd ar gynydd ymysg pob cynulleidfa.

Mae i'r Cyfryngau Cymdeithasol ddwy rôl benodol yn y Cyngor:

- Cyfathrebu
- Gwasanaeth Cwsmeriaid

Mae strategaeth cyfryngau cymdeithasol benodol yn ei lle i sicrhau y caiff y dulliau hyn o gyfathrebu eu cyflenwi'n gyson drwy'r Cyngor ac y caiff y cyfryngau cymdeithasol eu defnyddio i'w llawn botensial. Cânt eu defnyddio hefyd i ymgysylltu ac ymgynghori'n uniongyrchol â'r cyhoedd a chânt eu defnyddio fwyfwy i ymdrin ag ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd.

Mae'r Ombwdsman wedi cyhoeddi cyngor i gynghorwyr ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn ei Arweiniad ym mis Mawrth 2015 ar [Y Cod Ymddygiad i Aelodau](#). Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd wedi llunio arweiniad defnyddiol i'r cyfryngau cymdeithasol, sef [Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr](#). Mae'r canllaw yn ceisio rhoi syniad mwy eglur ynghylch sut i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, y peryglon posibl a sut i'w hosgoi.

Mae Arweiniad Arferion Gorau ynghlân â'r cyfryngau cymdeithasol ar gael gan olygydd y we.

Gwybodaeth mewn argyfwng:

Mewn argyfwng, yr adran Newyddion ar-lein fydd y ffynhonnell wybodaeth gynradd, a chaiff ei hategu gan Twitter a Facebook. Caiff aelodau'r cyhoedd, cynghorwyr a staff eu cyfeirio yno i gael y wybodaeth ddiweddaraf.

Caiff datganiadau i'r wasg a dolenni eu hanfon i'r cyfryngau traddodiadol hefyd.

Digwyddiadau:

Y Gwasanaethau Democraataidd sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff yr holl bersonau priodol eu gwahodd i ddigwyddiadau neu ymweliadau swyddogol. Mae'r Protocol ar gyfer Cyfathrebu ag Aelodau yn rhoi arweiniad i roi gwybodaeth i aelodau lleol, a'u cynnwys mewn digwyddiadau lle y bo'n briodol.

Dylai Swyddfa'r Wasg gysylltu â threfnydd y digwyddiad i ddarparu ffotograffydd a/neu gymorth cysylltiadau cyhoeddus. Mae Swyddfa'r Wasg hefyd yn helpu i drefnu digwyddiadau penodol fel agor ysgolion. Caiff aelodau lleol eu hysbysu am y rhain a'u gwahodd i fod yn bresennol.

Cynadleddau'r Wasg:

Caiff Cynadleddau'r Wasg eu galw ar gyfer digwyddiadau o bwys neu faterion pwysig sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Gallant naill ai fod yn rhagweithiol neu'n ymatebol, a chânt eu trefnu gan Swyddog y Wasg a fydd yn sicrhau bod y Prif Swyddog(ion) a'r Aelod(au) etholedig priodol yn bresennol.

Ffotograffau:

Caiff ffotograffau eu harchebu a'u trefnu drwy Swyddfa'r Wasg. Caiff ffotograffau eu cymryd fel arfer gan ffotograffydd ar staff y Cyngor a'u defnyddio yn y cyfryngau lleol, ar y we, ar Facebook, ac mewn cyhoeddiadau fel Newyddion Sir Gâr neu ddogfennau corfforaethol eraill. Caiff y rhan fwyaf eu storio ar Flickr ac maent ar gael ar werth i'r cyhoedd.

Ffotograffau o aelodau'r staff yn hyrwyddo gwasanaethau dydd i ddydd neu ddatblygiadau parhaus yw'r rhan fwyaf. Bydd cyfleoedd tynnu lluniau mewn perthynas â digwyddiadau pwysicach yn cynnwys yr Aelod priodol o'r Bwrdd Gweithredol a/neu Brif Swyddogion. Caiff aelodau lleol eu hysbysu o'r cyfleoedd hyn a'u gwahodd i fod yn bresennol.

Hysbysebu Corfforaethol:

Caiff yr elfen hysbysebu ei rheoli'n ganolog gan y tîm Cyfathrebu a dylid cyfeirio unrhyw gais am hysbysebu hyrwyddol a hysbysebu statudol, hysbysiadau a swyddi gwag iddynt hwy. Diben hyn yw sicrhau bod unrhyw arian a gaiff ei wario ar hysbysebu yn effeithiol ac yn werth da am arian, ac mae'n helpu i gyfyngu ar wariant corfforaethol. Y mae hefyd yn sicrhau bod cysondeb yn arddull a chynnwys yr hysbysebion, a'u bod yn dilyn canllawiau corfforaethol ynglŷn â brandio a pholisi dwyieithrwydd. Mae'n caniatáu i'r cyngor reoli ei ddefnydd o hysbysebu yn fwy effeithiol a sicrhau mwy o ostyngiadau. Mae gweithredu fel hyn yn arbed swm sylweddol o arian i'r Cyngor.

Caiff pob cais i hysbysebu ei ystyried gan y tîm Cyfathrebu ar sail meini prawf gan gynnwys gwerth am arian, p'un a yw'n briodol i hysbysebu, pa ddull o hysbysebu sydd fwyaf priodol, amseroldeb, p'un a oes camau gwerthuso a monitro yn eu lle, p'un a oes tystiolaeth o effeithiolrwydd ar gael, a ph'un a ellid hyrwyddo'r mater dan sylw drwy ddull arall fel y wasg neu'r we.

Yn ôl y Cod, dylid gwneud penderfyniad i gymryd gofod hysbysebu mewn cyhoeddiad a gynhyrchir gan sefydliad gwirfoddol, diwydiannol neu fasnachol ar sail bod hynny'n ddull effeithiol ac effeithlon o sicrhau'r cyhoeddusrwydd a dymunir.

Mae hysbysebu yn cynnwys cyfryngau cenedlaethol, lleol, print arbenigol a darlledu, baneri a phosteri, ar gerbydau, adeiladau ac arosfannau bws ac ar y we.

Newyddion Sir Gâr:

Cyhoeddiad chwarterol gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yw Newyddion Sir Gâr, ac mae'r cyngor yn un o chwe phartner. Y lleill yw Bwrdd Iechyd Hywel Dda, Coleg Sir Gâr, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Caiff ei gynhyrchu a'i reoli gan Swyddfa'r Wasg a Chyfathrebu. Gwneir y gwaith dylunio a hysbysebu gan Local World. (Noder: mae'n rhaid i unrhyw newidiadau i Newyddion Sir Gâr gael eu cymeradwyo gan bob partner.)

Caiff Newyddion Sir Gâr ei ddsbarthu i bob aelwyd yn Sir Gaerfyrddin, ac mae ar gael hefyd mewn nifer o adeiladau cyhoeddus. Caiff pob rhifyn o Newyddion Sir Gâr ei gyhoeddi yn yr adran Newyddion ar-lein.

Mae'r cynnwys yn adlewyrchu blaenoriaethau allweddol y Cyngor, fel y Rhaglen Moderneiddio Addysg a'r gyllideb. Dylai'r erthyglau anelu at roi gwybodaeth ddefnyddiol a/neu hanfodol i drigolion. Ni ddylai unrhyw erthyglau fod o natur wleidyddol bleidiol na hyrwyddo plaid wleidyddol.

Monitro:

Cedwir cofnod o bob datganiad i'r wasg ac ymholiad gan y wasg, a phob sylw gan y cyfryngau, gan gynnwys erthyglau'r wasg ar y we. Caiff gwefannau'r cyfryngau cymdeithasol eu monitro hefyd.

Hyfforddiant yn y cyfryngau:

Caiff hyfforddiant yn y cyfryngau ei ddarparu i aelodau'r Bwrdd Gweithredol, Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau, Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd, a Chadeirydd y Cyngor.

Rhoddir cymorth a chynghor perthnasol i'r Bwrdd Gweithredol i'w galluogi i chwarae rôl ragweithiol wrth gyflwyno materion i'r cyfryngau, esbonio eu gwaith a rhoi cyfweiliadau. Caiff cymorth ei ddarparu hefyd i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu, ac Arweinydd a Dirprwy Arweinydd yr wrthblaid.

Bydd cynghor ar gael gan Swyddfa'r Wasg i aelodau lleol wrth hyrwyddo materion lleol drwy'r cyfryngau ac wrth ymdrin ag ymholiadau drwy'r cyfryngau.

Bydd hyfforddiant yn y cyfryngau cymdeithasol hefyd ar gael i bob Cynghorydd i'w cynorthwyo i gyfathrebu'n effeithiol â'u hetholwyr.

Etholiadau:

Yn y cyfnod rhwng hysbysiad o etholiad a'r etholiad ei hun, ni ddylid rhoi cyhoeddusrwydd ragweithiol mewn unrhyw ffurf i ymgeiswyr a gwleidyddion eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r etholiad. Ni ddylai cyhoeddusrwydd ymwneud â materion dadleuol nac adrodd ar farn, cynigion nac argymhellion mewn ffordd sy'n eu cysylltu ag aelodau unigol neu grwpiau o aelodau. Ond y mae'n dderbyniol i'r awdurdod ymateb mewn amgylchiadau priodol i ddigwyddiadau a ymholiadau dilys ynghylch gwasanaethau cyhyd â bod yr ymateb yn ffeithiol a heb fod yn wleidyddol bleidiol. Dylai aelodau sy'n dal swyddi gwleidyddol allweddol allu ymateb mewn argyfwng neu pan fo angen gwirioneddol am ymateb ar lefel aelod i ddigwyddiad pwysig sydd y tu allan i reolaeth yr awdurdod. Ni ddylai digwyddiadau rhagweithiol a drefnir yn y cyfnod hwn gynnwys aelodau sy'n debygol o fod yn sefyll etholiad.

I GAEL MWY O WYBODAETH, CYSYLLTWCH Â: Debbie Williams, Rheolwr y Wasg, 01267 224037, e-bost DeAWilliams@sirgar.gov.uk